Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Prion

**Ysgol Pantpastynog**
**Prion**
**Dinbych**
**Sir Ddinbych**
**LL16 4SG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Prion yn rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych. Agorwyd y lleoliad ychydig dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl ar gyfer darparu addysg cyn-ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg i blant pentref Prion a'r ardal wledig o'i gwmpas. Mae'r lleoliad yn cyfarfod yn neuadd Ysgol Pant Pastynog sydd ar gyrion y pentref.

Bernir nad yw'r ardal a wasanaethir gan y lleoliad yn ffyniannus nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn tair oed ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) nac o grŵp ethnig wedi'u cofrestru yn y lleoliad.

Darperir sesiynau o ddwy awr am bum prynhawn yr wythnos ond bydd nifer y sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Yn ystod yr arolygiad, roedd pedwar plentyn tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad ac yn cael eu hariannu gan y Bartneriaeth.

Cymraeg yw prif iaith y cartref i bron pob plentyn yn y lleoliad. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Cefnogir addysg y plant gan dri ymarferydd llawn amser. Mae pob un ohonynt gyda chymwysterau priodol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn cynnwys prif ystafell ddysgu ac ardal chwarae gaeedig y tu allan a rennir gyda'r ysgol.

Wedi i'r plant orffen eu cyfnod yn y lleoliad byddant yn parhau gyda'u haddysg yn yr ysgol gynradd.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yng Ngorffennaf 2009. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- profiadau dysgu o ansawdd uchel;
- ansawdd addysgu ac asesu yn gyson dda;
- synnwyr clir o ddiben i arweinyddiaeth yr ysgol; a bod
- y lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- diwylliant o hunan-arfarnu yn treiddio trwy holl waith y lleoliad;
- pob ymarferydd yn cyfrannu'n adeiladol i ddatblygiad y lleoliad; a bod
- ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar ffyrdd gwahanol o weithio.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 rannu deilliannau hunan-arfarnu gyda'r pwyllgor rheoli; a

A2 chryfhau cysylltiadau gyda'r gymuned.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Barn |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr Iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang iawn o brofiadau dysgu diddorol ac ysgogol sy'n annog plant i wneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae cynllunio o ansawdd uchel yn arwain at weithgareddau hyblyg a dychmygus sy'n llwyddo i ennyn diddordeb yr holl blant. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol ac yn sicrhau dilyniant a pharhad mewn dysgu. Trwy amrywiaeth dda o weithgareddau dysgu, caiff plant eu hannog i ffurfio perthynas gadarnhaol gydag eraill ac i ddangos parch a goddefgarwch tuag at bawb o'u cwmpas. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i fentro a dod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfathrebu, rhifedd, thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a medrau ehangach yn gydlynus ac wedi'i hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau dysgu pob plentyn. Mae gan blant ran weithredol yn nhrefniadau ailgylchu'r lleoliad a chânt gyfleoedd da i ddysgu am eu rôl fel dinasyddion byd-eang. Caiff plant eu hannog yn gyson i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn eu chwarae a'u dysgu a darperir profiadau o ansawdd uchel iddynt ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol. Mae cryfhau cysylltiadau gyda'r gymuned wedi'i nodi fel un o brif flaenoriaethau'r lleoliad.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda drwy'r holl sesiynau. Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plentyn ac mae ganddynt ddealltwriaeth drwyadl o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn disgwyl llawer gan bob un o'r plant ar draws yr holl ystod gallu. Llwydda'r ymarferwyr i gadw cydbwysedd da rhwng gweithgareddau a ddewisir gan y plant a'r rheini sy'n cael eu harwain gan yr ymarferwyr eu hunain. Mae'r profiadau dysgu a ddarperir yn hynod o ddiddorol ac ysgogol ac mae pwyslais cryf ar ddysgu trwy chwarae. Bydd ymarferwyr yn anelu at sicrhau bod rôl weithredol i bob plentyn mewn dysgu. Mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith da iawn eu hunain a thrwy gwestiynu medrus ac ymyrraeth bwrpasol, maent yn herio plant ac yn gwella dysgu. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da a dychmygus o adnoddau, gan gynnwys technoleg, i wella dysgu. Caiff ymddygiad ei reoli'n effeithiol iawn. Mae cynnydd a lles plant yn cael eu holrhain yn ofalus ar draws yr holl feysydd dysgu a defnyddir y wybodaeth hon yn dda i gynllunio camau nesaf plant mewn dysgu. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am gyflawniadau, lles a datblygiad plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae polisïau a threfniadau clir yn y lleoliad ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant. Darperir bwydydd iach yn ystod byrbrydau a chaiff pob plentyn ei annog i ofalu am ei hylendid personol ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, yn arbennig o effeithiol. Mae plant yn teimlo'n hapus a ddiogel yng nghwmni'r oedolion yn y lleoliad ac maent yn hyderus iawn wrth ofyn am gymorth ac arweiniad. Mae'r ymarferwyr yn gwybod sut i ymateb yn briodol i unrhyw heriau mewn perthynas ag ymddygiad annerbyniol a diogelu. Mae trefniadau sefydlu trylwyr sy'n helpu plant i ymgynefino'n dda yn y lleoliad. Nodir anghenion dysgu plant yn fuan pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad a sicrheir bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu. Pan gyfyd achosion penodol, mae'r ymarferwyr yn rhagweithiol wrth ofyn am gymorth gan wasanaethau arbenigol. Mae'r lleoliad yn bodloni rheoliadau a chyfrifoldebau diogelu yn llawn ac yn sicrhau diogelwch plant bob amser. Mae gan y lleoliad bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus a chynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r pwyslais cryf a roddir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth yn hyrwyddo gwerthoedd megis caredigrwydd a goddefgarwch ac yn arwain at ddysgu effeithiol. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr, sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwydda'r holl ymarferwyr i greu amgylchedd dysgu diddorol ac ysgogol sy'n galluogi pob plentyn i fanteisio'n llawn ar brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol. Ceir cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da yn y chwe maes dysgu, sy'n cael eu gweddu'n ofalus i anghenion dysgu pob plentyn. Er y gwneir peth defnydd o adnoddau yn y gymuned i ychwanegu at adnoddau'r ystafell ddosbarth a chyfoethogi profiadau dysgu plant, nid yw'r agwedd hon wedi datblygu i'w llawn botensial. Mae'r adeilad a'r ardaloedd dysgu y tu allan o ansawdd da ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i ddarparu amgylchedd dysgu hynod o ddymunol.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd nodau clir, amcanion strategol a pholisïau priodol sy'n canolbwyntio ar gyflwyno darpariaeth o ansawdd sy'n bodloni anghenion plant. Mae hyn yn creu synnwyr clir o ddiben sy'n hyrwyddo a chynnal gwelliannau. Mae'r arweinydd yn cyfleu disgwyliadau'n uchel ar gyfer sicrhau gwelliant ac yn cefnogi a herio pob ymarferydd mewn ffordd gadarnhaol ac effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn rhannu'r un gwerthoedd ynghylch dysgu, addysgu ac ymddygiad. Gwneir yn siŵr gan yr arweinydd bod y Cyfnod Sylfaen ynghyd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol eraill, yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus. Mae'r berthynas gyda phlant, rhieni a'r pwyllgor rheoli yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu'n sylweddol at ymdeimlad o gymuned. Mae gan aelodau'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau ac maent yn cyflawni eu rôl rheoli perfformiad staff yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes trefniadau ffurfiol ar gyfer rhannu deilliannau hunan-arfarnu gydag aelodau'r pwyllgor. Mae canlyniadau holiaduron y rhieni yn dangos lefel uchel o foddhad yn ansawdd arweinyddiaeth y lleoliad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunan-arfarnu yn treiddio trwy holl waith y lleoliad. Caiff cryfderau a meysydd i'w datblygu eu cydnabod a chymerir camau i gynnal arfer dda a rhoi newid ar waith. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda iawn. Maent yn agored i gyngor a syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio. Mae hunan-arfarniad yn ystyried ymateb plant i'r ddarpariaeth ynghyd â barn rhieni, y person cofrestredig o'r pwyllgor rheoli a'r ALl. Gall ymarferwyr ddangos tystiolaeth gref o sut mae hunan-arfarnu wedi arwain at welliannau a datblygiadau arwyddocaol yn y ddarpariaeth ac yn safonau cyflawniad a lles plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau da a lles plant. Caiff y rheini eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad a chymerir camau gweithredol gan ymarferwyr i'w cynnwys yn yr holl weithgareddau a drefnir. Mae gan y lleoliad gysylltiadau cynhyrchiol iawn gyda'r ysgol gynradd ac mae trefniadau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth asesu ac arferion dysgu ac addysgu da. Mae'r cydweithio agos rhwng y lleoliad ag athrawes gynhaliol yr ALl yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau. Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol a gwneir y defnydd gorau posib o amser, arbenigedd a phrofiad ymarferwyr. Mae'r strategaethau effeithiol ar gyfer bodloni anghenion datblygiad proffesiynol staff yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol o ddatblygiadau yn y Cyfnod Sylfaen. Rheolir yr holl adnoddau'n dda. Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth gadarn o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n ofalus gan aelodau'r pwyllgor i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith cadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd chwech o holiaduron rhieni. Roedd bron pob un yn gadarnhaol gyda'r rhieni yn dweud bod eu plant wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad a'u bod yn mwynhau'r profiadau dysgu a ddarperir ar eu cyfer. Dywedant fod eu plant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu a'u bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol gynradd. Mae'r bron pob un o'r farn eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn a bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Dywed plant eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor ac arweiniad.

# Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)